# TERMS OF USE

This resource is **copyright ©ELSA Support**

All free products on this site are subject to a **Creative Commons copyright licence**. You are free to copy, distribute, display, and perform the work under the following conditions:

Attribution: You must give the original author credit **(That is ©ELSA Support)**
Non-Commercial: You may **not** use this work for commercial purposes **(You cannot sell this work or use it for financial gain)**
No Derivative Works: You may **not** alter, transform, or build upon this work **(You must not change our work in anyway)**

**Thank you for abiding by copyright law.**

www.elsa-support.co.uk

Some of the clipart used in making this resource is licensed to us from the following:

# MAE EIN HYSGOL AR GAU

# GAN

# CEFNOGAETH ELSA

Weithiau mae'n rhaid cau ysgolion am ychydig o amser. Maen nhw'n cau pan fydd hi'n wyliau haf. Maen nhw'n cau pan fydd hi'n wyliau'r Pasg. Maen nhw'n cau dros wyliau'r Nadolig. Weithiau mae'r ysgol yn cau pan fydd yr athrawon ar ddiwrnod o hyfforddiant neu pan mae hi'n ŵyl banc. Mae llawer o resymau pam fod ysgolion yn cau.

Weithiau mae'n rhaid i ysgolion gau am resymau eraill. Efallai nad yw'r gwres yn gweithio ac mae'n rhy oer. Neu efallai ei bod hi'n bwrw eira mor drwm na fedrwn ni gyrraedd yr ysgol.





©elsa-support 2020

Weithiau mae hi'n hwyl pan fydd yr ysgol ar gau. Gallwn ni wneud pethau gwahanol i'r arfer. Mae popeth yn newid.


Yn lle codi o'r gwely'n gynnar, ymolchi a gwisgo dillad, efallai y cawn ni aros yn y gwely am fwy o amser.

Mae'n bosib y cawn ni aros i fyny yn hwyrach hefyd.



©elsa-support 2020

Mae ein hysgol yn gorfod cau oherwydd y Coronafirws. Mae'r bobl bwysig yn y llywodraeth a'r gwyddonwyr clyfar yn meddwl mai dyma'r ffordd orau o gadw pawb yn ddiogel rhag y firws.



Os yw'r rhan fwyaf o bobl yn aros adref, ni fyddant yn gweld nac yn cyfarfod pobl eraill. Felly, ni fydd y firws yn gallu lledaenu.

Mae cyfarfod a gweld pobl yn cael ei alw yn gyswllt cymdeithasol. Yn yr ysgol, rydych chi'n gweld llawer o bobl drwy'r amser. Pan fyddwn ni adref, dim ond gyda'n teulu y byddwn ni'n cael cyswllt cymdeithasol. Ni fyddwn yn gweld ein ffrindiau.

Er mwyn i ni ymladd yn erbyn y firws, mae'n bwysig i ni beidio cael gormod o gyswllt cymdeithasol.

Mae angen i ni aros adref a bydd rhywun yn gofalu amdanom. Wrth wneud hyn byddwn yn rhwystro'r firws rhag lledaenu.

©elsa-support 2020

Efallai y byddwn ni'n teimlo ychydig yn drist am beidio mynd i'r ysgol

Mae'n newid mawr, ac weithiau nid yw plant yn hoffi i bethau newid. Nid yw oedolion yn hoffi i bethau newid gormod chwaith.

Mae angen i ni gofio ei bod yn iawn i ni deimlo ychydig yn drist. Bydd pawb arall hefyd yn teimlo ychydig yn drist. Bydd yr athrawon yn teimlo ychydig yn drist hefyd.

Mae'n bwysig i ni gofio pam ein bod yn gwneud hyn. Rydyn ni'n dîm o Uwch-arwyr sy'n ymladd yn erbyn y firws.

Cofiwch siarad ag oedolyn os ydych chi'n teimlo'n drist. Mae pethau y gallwn ni wneud i deimlo'n hapus eto.



©elsa-support 2020

Mae'n bwysig i ni wneud cynllun ar gyfer ein diwrnod adref. Beth am feddwl am yr holl bethau y gallwn eu gwneud adref? Bydd yr athrawon yn ein helpu drwy roi gweithgareddau i ni wneud adref. Bydd ein rhieni hefyd yn rhoi pethau i ni eu gwneud.



Dyma rai pethau y gallwn wneud:


❑ • Darllen llyfr
❑ • Helpu gyda thasgau o gwmpas y tŷ
❑ • Ysgrifennu stori
❑ • Lliwio
❑ • Gwneud crefftau
❑ • Helpu yn yr ardd
❑ • Gofalu am anifeiliaid anwes



Mae llawer o bethau y gallwn wneud adref sy'n hwyl




©elsa-support 2020



Ni fydd yr ysgol ar gau am byth, dim ond am ychydig o amser, tan i'r Coronafirws ddiflannu. Wedyn byddwn ni'n teimlo'n gyffrous i gael mynd yn ôl a gweld ein ffrindiau eto.

Mae'n bwysig iawn i wneud yn siŵr nad yw pobl hŷn yn dal y Coronafirws. Hefyd mae gan rai pobl broblemau iechyd a mae'n rhaid i ni eu cadw'n saff. Os ydyn ni'n dal y firws mi fyddwn ni'n iawn gan ein bod ni'n gryf ac yn iach. Gallwn ni ymladd y firws!



Byddwn ni'n hapus i aros adref er mwyn rhwystro'r Coronafirws rhag lledaenu. Ni yw'r Tîm Arch-arwyr a mae angen i ni helpu i ymladd y firws!



©elsa-support 2020